Cyfarfod Grŵp Llywio Aelodau Prosiect Gwyrdd	
26 Ionawr 2009, Tŷ Penallta, Tredomen	
Yn Bresennol:	**Talfyriad**
Aelodau Etholedig: Y Cynghorydd Colin Mann, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd) Y Cynghorydd Miss Lyn Ackerman, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Y Cynghorydd Margaret Jones, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Geoff Cox, Cyngor Bro Morgannwg	 CM LA MJ PF ES GC
Swyddogion: Steven Phillips, Cyngor Sir Caerdydd Marcia Sinfield, Cyngor Sir Caerdydd Gareth Price, Cyngor Dinas Casnewydd Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg Tara King, Rheolwr Prosiectau	 SP MS GP DH CP TK
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd David Atwell, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd David Fouweather, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd Gordon Kemp, Cyngor Bro Morgannwg Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd	

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
1.	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
1/09	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2008.	Nodwyd
2.	**Materion yn Codi**	
2/09	Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	Nodwyd
3.	**Adroddiad Rheolwyr Projectau – TK**	
3/09	Nododd TK fod yr holl bartïon bellach wedi ystyried ac ardystio cynnwys yr adroddiad 'cyffredin' (lle atodwyd yr achos busnes amlinellol). Yna rhoddodd TK y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y safle a nododd yn dilyn asesiadau technegol, yr ymchwilir ymhellach i ddau safle. Bydd angen drafftio penawdau'r telerau opsiynau a chytuno arnynt gyda'r Cyngor perthnasol cyn symud ymlaen at y cam caffael. O ran y sefyllfa ariannol, cyfeiriwyd at ymateb Prif Weinidog Cymru i CLILC yn nodi y bydd cyllid grant refeniw a chadarnhaodd gefnogaeth i'r prosiect gan ofyn am eglurhad o gamau'r broses ariannu. Yna cyfeiriodd TK at statws yr achos busnes amlinellol a'r amserlen a ddatblygwyd i ganiatáu i fwrw ymlaen â'r prosiect. Yna rhoddodd TK fanylion am yr effeithiau risg a'r ffactorau lliniaru a oedd eisoes wedi'u nodi yn y fframwaith rheoli risg yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, yn enwedig o ran y prosesau caffael ac ariannol. Ymatebodd TK i nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a'r cwrs o ddilyn trafodaeth gan gyfeirio'n benodol at yr amserlen a'r gofyniad ar bob un o'r awdurdodau cyfansoddol i gyflwyno'r adroddiad i'w pwyllgorau perthnasol o fewn yr amserlen benodol.	Nodwyd
4.	**Adroddiad Cyffredin 2**	
4/09	Yna rhoddodd TK a MS gyflwyniad ar yr ail adroddiad cyffredin ac wrth amlinellu ei gynnwys cyfeiriwyd at yr amserlen amlinellol ddangosol, egwyddorion allweddol y fanyleb amlinellol a'r amlen fforddiadwyedd. Atebodd TK a MS i nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y	Nodwyd

	cyflwyniad a chwrs o ddilyn trafodaeth gan gyfeirio'n benodol at: • ofyniad i bwysleisio fod y caffael yn niwtral o ran technoleg ac na fydd technoleg cyfeirio OBC o reidrwydd yn rhagnodi'r canlyniad terfynol • yr amlen fforddiadwyedd ac ystod • camau pellach i'w dilyn cyn bod yr adroddiad ar gael i'w gyflwyno i'r Pwyllgor.	Derbyniwyd Nodwyd Nodwyd
5.	**Ymgysylltu Rhanddeiliaid**	
5/09	Rhoddodd TK friff ar y cynigion ar gyfer ymgysylltu rhanddeiliaid ag Aelodau, ACau, ASau a thrwy gyd-graffu a'r cynigion i ddefnyddio panelau, byrddau a chyrff presennol at y diben hwn. Cadarnhaodd SP y gofyniad i sicrhau bod cysondeb wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn enwedig yn y maes lle dewisir safle penodol. Codwyd nifer o gwestiynau am y protocol ar gyfer ymgysylltu a chyfeiriwyd at y protocol cyfryngau cymeradwy a'r broses ar gyfer ymdrin â'r holl ymholiadau drwy un cyfeiriad e-bost canolog. Cytunwyd y byddai'r cyfeiriad e-bost, fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, yn cael ei ailddosbarthu i'r holl Aelodau er gwybodaeth. Cyfeiriwyd hefyd at yr amserlen arfaethedig ar gyfer y prosiect ac i amseru'r broses ymgysylltu a nodwyd yr ymdrinnir â hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Nodwyd
6.	**Sesiwn Cwestiwn ac Ateb**	
6/09	Ni chodwyd unrhyw gwestiynau nad oedd wedi cael eu trafod eisoes yn ystod cwrs y cyfarfod.	Nodwyd
7.	**Unrhyw Fater Arall**	
7/09	Cyfeiriwyd hefyd at Weithdy Caffael Seilwaith Cymru i'w gynnal yn Llandrindod ddiwedd y mis. Dosbarthwyd manylion am y gwahoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r rhai a oedd yn bresennol.	Nodwyd
8.	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
8/09	Cytunwyd yn sgîl ymrwymiadau eraill y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 23 Chwefror 2009 yn cael ei ganslo. Cynhelir cyfarfodydd eraill am 4.30pm fel a ganlyn: 6 Mawrth 2009 – Tŷ Penallta 20 Ebrill 2009 – Tŷ Penallta neu Neuadd y Sir, Caerdydd	Cytunwyd Nodwyd